

Mewn Cysylltiad



Care & Repair
Gofal a Thrwsio

Nadolig 2018

Gwella Cartrefi, Newid Bywydau

Nadolig Llawen

Wrth i ni agosáu at ddiwedd 2018, mae'n amser da i rannu rhai o lwyddiannau'r flwyddyn, atgoffa ein hunain o pam ein bod yn gwneud yr hyn a wnawn a sut mae Gofal a Thrwsio yn gwneud gwahaniaeth i bobl hŷn yng Nghymru.

Mae Gofal a Thrwsio yn darparu gwasanaeth hanfodol sy'n cefnogi llesiant pobl hŷn. Drwy ganolbwyntio ar sut y gwnawn eu cartrefi'n gynnes a diogel rydym yn helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, gostwng y risg o faglu a syrthio, atal pobl rhag gorfod mynd i ysbyty oherwydd cartrefi oer a llaith a helpu ein cleientiaid i wneud cais am fudd-daliadau nad ydynt yn eu hawlio.

Bob blwyddyn rydym yn helpu dros 40,000 o bobl hŷn i aros yn byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Ond mae cymaint mwy y mae angen i ni wneud. Ddiwedd mis Tachwedd cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y ffigurau ar y marwolaethau ychwanegol a ddigwyddodd yn y gaeaf y llynedd. Yng Nghymru roedd y cynnydd yn 83%, i 3,400, i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Medrid bod wedi osgoi llawer o'r marwolaethau hyn. Y llynedd fe wnaeth Gofal a Thrwsio helpu dros 1,186 o bobl hŷn



i wneud eu cartrefi yn gynhesach ac yn fwy fforddiadwy i'w twymo. Fe wnaethom hefyd helpu 1,112 o bobl i gynyddu incwm eu cartref, gyda chyfanswm o £5,339,514 yn cynnwys budd-daliadau nad oedd yn cael eu hawlio.

Diolch i'n llu o gefnogwyr a ffrindiau y gallwn wneud cymaint mwy ac i wella bywydau cynifer o bobl hŷn ledled Cymru. Gyda'n gilydd gallwn, ac yr ydym, yn gwneud gwahaniaeth go iawn.

Diolch i chi am fod yn Gyfaill Gofal a Thrwsio ac am gefnogi ein gweledigaeth o Gymru lle gall pob person hŷn fyw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes ac addas.

Hoffai pawb ohonom yn Gofal a Thrwsio ddymuno Nadolig Llawen iawn a dymuniadau gorau i chi ar gyfer y Flwyddyn Newydd.

TU MEWN...

Cadw pobl hŷn yn ddiogel ledled Cymru

• Adeiladwyr Cyfeillgar
• i Dementia yng
• Nghwm Taf

• Pen-blwydd hapus yn
• 30 oed i Gofal a Thrwsio
• ym Mhowys!



Helpu pobl hŷn i gadw'n ddiogel a chynnes

Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd Her Nadolig Big Give 2018 Gofal a Thrwsio.

Fe wnaethom godi £4,491 ar gyfer ein Cronfa Caledi Cartrefi Iach i Bobl Hŷn. Bydd hyn yn rhoi grantiau o tua £300 yr un i 15 o bobl hŷn i drwsio gwresogi neu wneud gwaith trwsio sy'n gostwng oerfel a ddrafftiau. Pobl fel Lloyd, sy'n 70 oed.

Cysylltodd Lloyd â ni ar ôl syrthio ac roedd ei arthritis yn ei gwneud yn gynyddol anodd iddo fynd i mewn ac allan o'r bath. Prin ddigon ar gyfer ei gostau byw oedd ei bensiwn gwladol ac ni fyddai ei arian yn ymestyn yn ddigon pell i wneud gwaith trwsio o amgylch ei gartref. Roedd ei bopty nwy wedi ei gondemnio, ei beiriant microdon wedi torri ac roedd y boeler gwres canolog yn wallus.

Fe wnaethom Lloyd i hawlio'r holl fudd-daliadau y mae ganddo hawl iddynt. Gwnaed cais am grant a dalodd am ystafell gawod newydd gyda chanllawiau a thalodd Cronfa Galedi Cartrefi Iach i Bobl Hŷn am wasanaeth i'w foeler a phrynu microdon newydd.

“Mae'r help a gefais gan Gofal a Thrwsio yn golygu y gallaf fyw'n annibynnol yn fy nghartref sy'n llawer mwy diogel i fi yn awr. Rwyf wrth fy modd gyda'u gwasanaeth.

Adeiladwyr Cyfeillgar i Dementia yng Nghwm Taf

Mae dementia yn bryder cynyddol i bawb ohonom, ac rydym yn awyddus i wneud cymaint ag sydd modd i fynd i'r afael yn gadarn ag ef. Oedran cyfartalog ein cleientiaid yw 77 oed ond gyda mwy ohonom yn byw'n hirach, maent yn fwy tebygol nag erioed i ddatblygu dementia - bydd un ym mhob pump o bobl 80 oed yn derbyn diagnosis.

Os nad ydych wedi adnabod rhywun gyda dementia gall fod yn anodd deall y clefyd a'i effaith ar fywyd dydd i ddydd Fel canlyniad, rydym yn sicrhau fod llawer o staff Care & Repair Cymru yn derbyn hyfforddiant Cyfeillion Dementia pan maent yn gweithio i ni.

Mewn symudiad ychwanegol, mae Gofal a Thrwsio Cwm Taf yn awr yn annog eu contractwyr cymeradwy i ddod yn Gyfeillion Dementia. Mae eu hyfforddiant yn helpu eu contractwyr i ddangos eu bod yn gofalu pan maent yn gwneud gwaith trwsio, a chafodd effaith fawr gan ddarparu gwasanaeth gwell sy'n dangos mwy o ddealltwriaeth i gleientiaid.



30fed Pen-blwydd Hapus Gofal a Thrwsio Powys

Mae Gofal a Thrwsio Powys yn gwasanaethu'r sir fwyaf yng Nghymru sydd eisoes â'r gyfran uchaf o bobl dros 60 mlwydd oed, gyda chyfran uwch o'r boblogaeth yn heneiddio nag unrhyw ran arall o'r wlad.

Ym mis Awst, ymunodd dros 40 o gefnogwyr a'i ffrindiau ag Anna Orton Prif Swyddog a'i thîm yng Nghanolfan Gymunedol Ystradgynlais i ddathlu 30fed pen-blwydd y sefydliad.

Siaradodd Anna am nodweddion ardderchog ei thîm, yn cynnwys eu nerth, gwytnwch a hyblygrwydd. Mae'n falch tu hwnt o allu ei thîm i ymestyn adnoddau i orchuddio holl ardal ddaearyddol Powys, gan gynnig gwasanaeth o'r un lefel lle bynnag mae pobl yn byw.

Y peth mwyaf hynod o'r cyfan yw eu henw da am fod â'r gwasanaeth canllawiau cyflymaf yng Nghymru.

Ffoniwch ni ar **0300 111 3333** neu e-bost enquiries@careandrepair.org.uk
www.careandrepair.org.uk

ddod o hyd i ni ar

